

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 8

Yn rhad ac am ddim

Tachwedd 2022

Dysgwyr Bro Gŵyr



Caffi'r Tri Chlogwyn



Shw mae dydd Iau

Dysgwyr bro Gŵyr

gan Rob Evans

Os bydd pethau'n parhau i fynd fel hyn byddai pawb ar Gŵyr yn siarad Cymraeg! Mae grŵp o ddysgwyr wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol yng nghaffi'r Tri Chlogwyn am rai blynyddoedd erbyn hyn ond yn ddiweddar ar ochr ogleddol y penrhyn mae grŵp arall wedi ei sefydlu. Maen nhw'n cyfarfod yn y caffi yng Nghwm Ivy bob bore dydd Iau am 11.00 o dan yr enw 'Shw mae dydd Iau'. Da ynte!

A pheidiwch â meddwl mai rhyw hercian siarad sydd yn mynd ymlaen, o na, maen nhw'n clebran. Dw i'n mynd yna i roi cymorth i'r ddau grŵp a phob hyn a hyn dw i'n stopio i wrando arnyn nhw ac mae fy ysbryd yn codi! Dyma bobl sydd ddim wedi cael eu magu yn yr iaith Gymraeg, maen nhw wedi dewis dysgu, wedi dod trwy'r broses a rŵan maen nhw wrth eu boddau yn siarad yr iaith.

Mae'r ddau le yn boblogaidd iawn efo ymwelwyr am hanner y flwyddyn a'r ymwelwyr yn sylwi ar yr iaith anghyfarwydd maen nhw'n clywed. "Pa iaith dach chi'n siarad?" maen nhw'n gofyn a phan dyn ni'n esbonio mai'r

Gymraeg yw hi maen nhw'n llawn diddordeb. Go brin maen nhw wedi clywed yr iaith o'r blaen.

Y mwyaf o bobl sydd yn clywed yr iaith yn cael ei siarad go iawn y cryfaf yw'r iaith a phan mae gymaint o bwysau ar ein cymunedau mae hynny'n beth da iawn.

Ac os oes dau grŵp ym mro Gŵyr dyle fod o leiaf un yn eich ardal chi felly beth amdani? Mae grwpiau Gŵyr yn rhoi cyfle i'r rhai sydd ar y gris gyntaf i ymarfer yr iaith maen nhw wedi dysgu a hynny mewn amgylchfyd naturiol. Maen nhw'n dod i sylweddoli bod nhw yn gallu sgwrsio, ac mae holl batrymau cymhleth yr iaith yn eu pennau nhw wedi'r cwbl. Bob wythnos mae'r hyder yn codi ac yn bendant nid ydyn nhw'n mynd i roi'r gorau i'r ymdrech rŵan.

A ni, y Cymry Cymraeg, dyn ni angen pob un ohonyn nhw er mwyn cryfhau ein cymdeithasau. Ond er mwyn i ni wybod pwy sy'n dysgu rhaid i'r dysgwyr cyfarfod mewn lle agored fel caffi. Wedyn byddech chi'n dod ar eu traws nhw, eisteddwch efo nhw, gofynnwch am eu hanes ac ymunwch yn eu sgysiau. Gwnewch ffrindiau efo nhw a helpwch nhw i ddarganfod y drws i'n cymdeithas.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Yr hen filiwn yna? Heb ein mewnbwn ni does dim gobaith i hynny ddigwydd. Mae miloedd yn cofrestru i ddysgu Cymraeg bob blwyddyn, helpwch nhw i ddarganfod hyder a bydd llawer mwy ohonynt nhw yn dal ati tan y diwedd.

Ac os oes rhywun am ddechrau grŵp ac eisiau cyngor cysylltwch â fi, byddaf yn hapus iawn i'ch helpu - bobwennol@ntlworld.com

O'r Diwedd!

gan Sue Pryce

Mae fy nheulu yn dod o Gymru yn wreiddiol. Cafodd fy rhieni eu geni a magu ar ffermydd yn Sir Drefaldwyn. Pan o'n i'n blentyn aethon ni ar wyliau ar y ffermydd neu ar lan y môr yn Sir Benfro. Cwrddais i â llawer o Gymru oedd yn siarad Cymraeg. Ro'n i eisiau siarad Cymraeg hefyd! Erbyn hyn dw i'n byw yng Nghaerwrangon ac wedi ymddeol. Does dim gwersi Cymraeg yng Nghaerwrangon ond roedd y cyfnod clo yn gynnig cyfle i ddysgu ar Zoom.

Wnes i ymuno â dosbarth ym mhrifysgol Abertawe, felly ym mis Chwefror y llynedd dechreuais ddysgu Cymraeg. Ro'n i'n wrth fy modd, ac yn benderfynol i lwyddo. Gorffennais gwrs Mynediad ym mis Awst y llynedd a dechreuais gwrs Sylfaen ym mis Medi gyda sawl dysgwr newydd.

Roedd y gwersi'n anoddach achos roedd y dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond dim ond yn y dosbarth oeddwn i'n siarad Cymraeg. Roeddwn i eisiau siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Gwnaeth fy ffrind Pam gynnig help i fi wrth ddweud "Dewch i aros gyda fi!" Es i i Abertawe ym mis Awst a siaradodd Pam Gymraeg 'da fi, teimlais yn hapus iawn, roeddwn i wedi ffeindio fy nhafod, doeddwn i ddim wedi siarad yn y dosbarth ers wythnosau.

Wedyn, aethon ni i 'Shw mae dydd Iau' yng Nghwm Ivy gyda'n gilydd. Pob dydd Iau mae dysgwyr yn cyfarfod yn y caffi i siarad Cymraeg. Ro'n ni wedi cyffroi ac yn mwynhau pob munud. Mae Cwm Ivy yn rhoi'r cyfle i siarad gyda dysgwyr eraill a siaradwyr iaith gyntaf, dyn ni wrth ein bodd! Ers hynny dw i wedi ymweld â Pam llawer gwaith ac wrth gwrs Cym Ivy! Dw i'n teimlo mwy hyderus i ddechrau cwrs Canolradd

a dw i'n ddiolchgar iawn i fy ffrind Pam a fy ffrindiau yng Ngwm Ivy hefyd. Diolch yn fawr!

Cael Ffrind Newydd

gan Pam Davies

Pam dw i. Dw i'n byw yn Y Grwys ar Gŵyr. Ro'n i'n gweithio fel bydwraig am bedwar deg bedwar mlynedd. Dw i wedi ymddeol erbyn hyn ac wedi penderfynu dysgu Cymraeg a bod yn rhugl.

Dysgais Gymraeg trwy Brifysgol Abertawe, mae'r gwersi ar-lein, a dydw i ddim yn dda gyda thechnoleg, felly ro'n i'n nerfus iawn.

Yn ystod y gwersi cwrddais i Sue o Gaerwrangon. Roedd ei rhieni hi o deuluoedd Cymraeg ac mae hi mor benderfynol â fi i ddysgu Cymraeg. Mae hi wedi teithio i Gŵyr i aros gyda fi a'r teulu er mwyn siarad Cymraeg a mwynhau'r ardal.

Teithion ni o gwmpas Gŵyr i weld Rhosili, Oxwich, Port Eynon, Llangennith, Caswell, Langland a'r Mwmbwls. Ymwelon ni â Thalacharn a Llandeilo yn sir Gaerfyrddin. Roedd hi wrth ei bodd.

Yn ystod ei hamser hi gyda fi ffeindio'n ni grŵp o ddysgwyr Cymraeg yn cyfarfod mewn caffi yn Llanmadoc ar fore dydd Iau - 'Shw mae dydd Iau'. Yna dyn ni wedi cwrdd â llawer o bobl a dyn ni'n siarad yng Nghymraeg gyda nhw. Mae'n ardderchog! Dyn ni'n mwynhau'r cyfle i ymarfer ein Cymraeg prydfferth gyda ffrindiau.

Ymunwch â ni i wella eich iaith!

Os dach chi am ddod i Shw Mae Dydd Iau rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth mi fyddan ni'n cyfarfod yn y caffi sydd yn y siop gymunedol ym mentref Llanmadog. Mae ar y dde ar ben yr allt. Mi fydd croeso mawr i chi. 11.00yb pob dydd Iau.

Allech chi wneud eich siopa hefyd!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Richard from Perth (Awstralia)

Richard dw i. Dw i'n byw yn Awstralia. Dw i'n dysgu siarad Cymraeg, ac yn hoffi nofio yn y môr a bwyta sglodion ond nid ar yr un pryd.

Glenda yw enw fy athrawes, mae hi'n dod o Borthmadog. Dyn ni'n siarad ar-lein. Mae hi'n hoffi gwin a siocled, mae hi'n byw gyda Steve ac mae Steve yn glanhau'r tŷ.

Mae Glenda yn athrawes dda achos mae Steve yn ei helpu hi, mae pawb angen rhywun i helpu nhw.

Digon gwir - Rob

Sais yng Nghymru

gan Ken Jones

Helo Pawb. Ga i gyflwyno fy hun. Ken dw i. Symudais i i Gymru gyda fy ngwraig pum blynedd yn ôl. Dyn ni'n byw ym Mhenclawdd, pentre' bach ger Abertawe. Pan symudon ni yma penderfynon ni dysgu Cymraeg gyda'n gilydd. Ro'n ni byth wedi trio siarad Cymraeg o'r blaen. Roedd hynny yn 2018. Dyn ni'n dal yn dysgu a dyn ni'n mwynhau siarad yn Gymraeg gartre.

Y peth pwysig ydy i ymarfer a dysgu un gair newydd bob dydd.

Cyflwyno - to introduce

Brian Thorne


Fy enw i yw Brian Thorne, Dw i'n byw yn Waunarlwydd yn Abertawe. Dw i'n chwe deg chwech oed, ond dw i wedi bod yn dysgu am byth! Dw i'n meddwl mod i'n dysgwyr bythol oes.

Dw i'n hoffi cerddoriaeth werin Gymreig, cefn gwlad bro Gŵyr, cwrw a chyri, dw i'n edrych ymlaen at fod yn ddwyieithog!

Wendy, Gwen, Lottie a Lili

Helo pawb, Wendy dw i. Dw i'n byw yn Kingston, Tasmania. Mae Tasmania yn ynys ger Awstralia. Dw i'n byw gyda fy merch, Gwen a dau gi, Lottie a Lili. Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg.

A, fel trât i chi, dyma Lottie a Lili. Tydyn nhw'n ddel!



Tomás Mac Aodhbhui

Fy enw i ydy Tomás Mac Aodhbhui. Dw i'n byw yn Iwerddon. Yn Ne Ddwyrain Iwerddon ges i fy ngeni, a dw i'n dal yn byw yn yr un pentre'. Dw i'n dysgu Cymraeg am fy mod i'n siarad Gwyddeleg ers i mi fod yn ifanc. O'n i'n edrych ar y Gymraeg fel rhyw estyniad o'r Wyddeleg, am mai iaith Geltaidd ydy hi hefyd.

Dw i'n hoffi byd natur a bod allan yn yr awyr agored. Dw i wrth fy modd efo arfordir Gorllewinol Iwerddon a Chymru a'r Alban. Wrth ddysgu unrhyw iaith mae'n bwysig cael cysylltiad efo'r iaith pob dydd. Oherwydd fy mod i'n byw mor bell o Gymru mae'n amhosibl cael cyfle i siarad Cymraeg yn aml. Ond dw i'n gwrando ar Radio Cymru ar bob cyfle, ac mae hynny wedi bod yn gymorth mawr i fi.

Estyniad - an extention

Byswn i wrth fy modd yn siarad Gwyddeleg cystal â sut wyt ti'n ysgrifennu Cymraeg - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Sara Jones

Fy enw i yw Sara Jones. Dwi'n byw yn Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Dwi'n dod o Sri Lanka yn wreiddiol. Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg am tua phum mlynedd. Dwi'n hoffi garddio, coginio, teithio, darllen a cherdded.

Dwi'n 73 oed ac yn briod â Chymro Cymraeg, felly dw i'n siarad Cymraeg gyda fe.

Mae gynnwys ni ddau fab a thri o wyrion ac mae pawb yn siarad Cymraeg.

Merch o Seland Newydd

Deborah yw fy enw i. Dw i'n dod o Seland Newydd yn wreiddiol, ond symudais i i Gymru yn 2008. Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn syth a dw i'n mwynhau siarad yr iaith yn fawr iawn. Dw i wedi byw yng Nghaerdydd a Llandysul, ond yn 2020 symudais i i Wlad y Basg ble dw i'n byw nawr, yn Vitoria-Gasteiz. Dw i'n ymweld â Chymru mor aml â phosib achos mod i dal yn caru'r wlad a'r bobl.

John Lee

John dw i. Dw i'n dod yn wreiddiol o Henffordd, symudais i orllewin Cymru gyda fy nheulu pan oeddwn yn chwe blwydd oed. Yn ugain oed symudais i ffwrdd i astudio a gweithio fel peiriannydd trydanol. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach ymddeolais a symud yn ôl i orllewin Cymru. Dw i'n nawr yn byw yn nhref farchnad Hendy Gwyn ar Daf.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd ar-lein (Zoom) a byddaf yn dechrau ar y cwrs 'Canolradd' ym mis Medi. Mae gen i swydd ran amser yn danfon bara i gwsmeriaid yn nhref Caerfyrddin a'r cyffiniau ar gyfer popty lleol.

Mae cath gyda fi o'r enw 'Buster' a ddaeth gyda'r byngalo brynais i. Dw i'n mwynhau Technoleg Gwybodaeth, DIY, garddio, coginio a chefnogi'r tîm rygbi lleol a'r tafarndai lleol.

Ruth Kelly

Shwmae pawb. Ruth dw i. Dw i'n dod o Loegr a dw i'n byw gyda haid fach o ieir yn Shaftesbury yn Dorset. (Haid - flock)

Nes i symud i Shaftesbury dwy flynedd yn ôl, ar ôl i fy ngŵr farw. Mae gyda fi ddau o blant sydd 4

wedi tyfu lan. Maen nhw'n byw yng Nghaergrawnt a Truro.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Mehefin y llynedd. Mae'r iaith Gymraeg yn brydferth iawn, a dw i'n meddwl bod hi'n wych i allu siarad yr iaith hynaf ym Mhrydain. Gobeithio bydd y ddysgu yn dda i fi, hefyd.

Dw i'n mwynhau siarad yn fawr iawn ond sa i'n nabod unrhyw un yn yr ardal sy'n siarad Cymraeg, felly dw i ddim yn cael digon o ymarfer siarad.

Y peth arall dw i'n hoffi gwneud yw hedfan: o'n i'n ddigon lwcus i gallu cael fy awyren fy hunan ychydig o flynyddoedd yn ôl. Dw i'n ei gadw mewn maes awyr bach tua saith milltir i ffwrdd o ble dw i'n byw. (Hedfan - to fly)

Dw i'n mwynhau hedfan dros gefn gwlad Dorset, ond gobeithio bydda i'n hedfan i Gymru yn fuan, a siarad Cymraeg gyda llawer o bobl!

Cofiwch fod dau grŵp o ddysgwyr ar Gŵyr ac nid yn bell o faes awyr Abertawe. Byddai ddim problem i roi lifft i chi i'r cyfarfod.

Susanna Reisner

Susanna dw i. Dw i'n byw mewn pentref bach yng Nghanolbarth Lloegr. Mae rhwng Burton on Trent, sydd yn enwog am fragu cwrw, a Lichfield sydd ag eglwys gadeiriol ganoloesol gyda thri meindwr.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am un mis ar bymtheg gyda SSiW a dwi'n mwynhau yn fawr iawn. Mae teulu fy nhad yn dod o Bari, De Cymru, yn wreiddiol.

Dw i'n mwynhau cerdded a garddio. Dyn ni'n tyfu blodau ond dim ond ychydig o lysiau fel ffa, courgettes a letys. Dyn ni'n perthyn i'r clwb garddio yn y pentref.

Dw i'n dwli ar gerddoriaeth a chwarae'r ffidil ond dw i ddim yn dda iawn. Dysgais i chwarae'r iwealili ond yn anffodus dyw ein grŵp ni ddim wedi chwarae gyda'i gilydd ers Cofid.

Am y tri deg mlynedd diwethaf dyn ni wedi bod yn mynd i Gymru ar wyliau i Sir Benfro ond ddoeddwn i erioed wedi clywed Cymraeg yno.

Gobeithio y bydd hynny'n newid yn y dyfodol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cerddoriaeth a fi.

gan Susan Roberts



Pan ro'n i'n 8oed, ymunais â'r band pres yn Ynyshir a dysgais i ddarllen cerddoriaeth a chwarae tenor horn.

Pan es i i'r ysgol gyfun, doedd dim band pres, dim ond cerddorfa, felly roedd rhaid i fi newid i chwarae french horn. Dw i'n cofio mynd i'r Ogmores School Camp sawl gwaith bob blwyddyn a chwaraeais i gyda'r Mid-Glam Youth Orchestra. Roedd yn brofaid anhygoel a wnes i lawer o ffrindiau newydd.

Hefyd dysgais i chwarae gitâr. Dysgais o lyfr o'r enw 'Play in a Day' gan Bert Weedon. Roedd fy ffrindiau a fi'n chwarae'r gitâr gyda'n gilydd a ro'n ni'n canu yn y côr hefyd.

Pan ges i fy mhlant yn y saith degau, canolbwyntiais ar fagu nhw ac yn anffodus, stopiais chwarae fy offerynnau.

Ers i fi ymddeol, dw i wedi ailddechrau chwarae'r gitâr. Fy hof gân i ganu yw 'Autumn Leaves'. Dw i'n dwlu ar y gân a dw i'n gallu chwarae efo Eric Clapton (ar YouTube). Dyw Eric ddim yn gwybod beth mae e'n colli ! 😊

Cadw'n brysur ar ôl ymddeol

gan Gareth Roberts

Gareth dw i. Dw i'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol ac es i brifysgol Aberystwyth yn yr wythdegau. Astudiais i ffiseg yn y brifysgol; dw i'n cofio bod fy mhrosiect gradd yn defnyddio laser i astudio gronynnau folcanig yn yr uwch stratosffer - roedd y golau gwyrdd cul yn yr awyr yn weledol am lawer o filltiroedd o gwmpas.

Ar ôl gadael Aber, ro'n i'n gweithio fel ffisegydd, rhan fwyaf yn y diwydiant niwclear, dros drideg o flynyddoedd. I ddechrau ro'n i'n gweithio ac yn byw yn y gogledd pell o'r Alban, ger John o'Groats; ac wedyn yn ne Lloegr. Roeddwn i'n gweithio ar Ddosimetreg

Ymbelydrid - yn astudio ac yn monitro effeithiau ymbelydron ar y corff. Mae'n dal yn wyddoniaeth sy'n datblygu a'r peth gorau i fi oedd gweithio gyda gwyddonydd dros y byd i gyd i weithredu syniadau.

Ym mis Medi eleni es i am dro gyda grwp Cered Menter Iaith yn ardal Bwlch Nant y Arian (ar bwys Aberysywth), a chw'rddais â rhywun sy'n gweithio yn yr un lle â fi yn ne Lloegr (cyn i mi ymddeol dwy flynedd yn ôl): byd bach yn wir!

Des i nôl i Aberystwyth dwy flynedd yn ôl (roedd yr hiraeth yn ormod), a dechreuais ddysgu Cymraeg ar lein gyda Dysgu Cymraeg. Hefyd, dw i wedi ymuno â sawl grŵp sgwrs sydd yn cwrdd yng nghaffis lleol ac ar lein. Mae'n ffordd wych i ymarfer yr iaith ac i wneud ffrindiau newydd.

Dw i wedi ymddeol nawr, ond dw i'n gwirfoddoli gyda 'Ceredigion Rights of Way Volunteers'. Dyn ni'n mynd mas i'r cefn gwlad tua unwaith yr wythnos, i drwsio gathiau a phontiau troed ac yn y blaen, er mwyn cadw'r llwybrau cyhoeddus ar agor. Ar ôl mwy na thrideg mlynedd yn gweithio tu ôl i ddesg, mae'n wych i weithio yn yr awyr iach yng nghefn gwlad hardd Ceredigion. Ces i'r syniad pan o'n i'n cerdded yn y cefn gwlad i'r gogledd o gronfa ddŵr Nant y Moch a gwelais fod y llwybr wedi ei gau gan berchennog y tir, er ei fod yn llwybr cyhoeddus. Ar ôl cysylltu â'r Cyngor dysgais am y grŵp o wirfoddolwyr. A finnau'n meddwl, dyma ffordd wych i fi helpu cadw'r llwybrau cyhoeddus ar agor. Dw i'n meddwl bod hyn yn bwysig iawn i helpu pobl i fwynhau'r cefn gwlad a, felly, yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd i'r dyfodol.



Cyn ein Gwaith

Dechreuodd y grwp 'Ceredigion Rights of Way Volunteers' tua tri-deg mlynedd yn ôl gan grŵp 'Ramblers' lleol. Eu gwaith gyntaf oedd creu llwybr rhwng y Hostelau Ieuenticid yn Y Borth, ar y arfordir ac Ymstumtuen, yn y brynau. Daeth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Ar ôl ein Gwaith

llwybr hon wedyn yn lwybr Borth i Bontarfynach. Mae dros 800km o lwybrau yng ngogledd Ceredigion ac mae pump ohonon ni ar hyn o bryd yn wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r wardeniaid cefn gwlad lleol sy'n trefnu'r gwaith ac yn darparu offer. Mae'n waith galed, yn wir, ond mae'n rhoi pleser i weld ffrwyth ein llafur ar ddiwedd y dydd... ac yn bosib iawn dyma'r swyddfa gorau yn y byd!

Taith Calon Cymru

Llangadog i Lanymddyfri
gan Sylvia Harries



Gwnaeth saith ohonon ni adael Penarth am chwech o'r gloch y bore. Roedd e'n fore hyfryd, hyfryd iawn. Gyda'r haul yn ei nef aethon ni draw i Aberhonddu. Wrth i ni fynd heibio Pen y Fan roedd llwyth o bobl yn cerdded fel morgrug yn mynd i fyny wal. Wedyn aethon ni ar draws cefn gwlad i Lanymddyfri.

Gyrhaeddod ni mewn digon o amser i ddal y trêni i Llangadog. Doedd dim ond un enaid unig ar y trêni. Tro hwn roedd rhaid i ni dalu am ein tocynnau gan fod y teithio am ddim wedi dod i ben. Cyrraedd Llangadog a dyma ni'n ddechrau'r daith yn ôl i Lanymddyfri.

Roedden ni'n dringo ar unwaith, ymarfer cardio fasgwlaidd da yma mae'n rhaid dweud, heibio ffermydd a bythynnod hyfryd iawn a nawr croesi'r A4069 a ninnau'n uchel i fyny yn edrych i lawr dros ddyffryn Tywi. Dyma ni'n cyfarfod cerddwyr eraill sy'n mynd yr un ffordd. Dilynon ni nhw am ychydig, ond roedd yn eithaf anodd felly penderfynon ni stopio am goffi. Disgynnodd y caeau yn serth i'r pellter gan roi golygfa hardd o'r brynau pell. Islaw oedd Glasallt Fawr, Maenordy Sioraidd trawiadol gyda llu o rododendrons yn eu blodau. Llun perffaith.

Unwaith i ni wneud ein ffordd i lawr roedd ddargyfeiriad bychan i'r llwybr troed i osgoi'r tŷ a'r parcdir o gwmpas ac ymlaen i Letty-ifan-ddu. Yma wnaethon ni gwrdd â pherchennog Gilgwyn Lodge tra roedden ni'n edmygu ei gardd brydferth. Mae'r gerddi wedi enill gwobr Gardd Agored. Nid oedden ni'n synnu.

Clywon ni ei bod hi dros ddeugain mlynedd ers iddi hi a'i gŵr ddechrau tendio'r ardd ac yn y blynyddoedd diwethaf wedi ennill lawer o wobrau 'Ardd Agored'. Ers iddi fod yn weddw nid yw'n cymryd rhan bellach, serch hynny roedd yr ardd yn safle hyfryd i'w weld.

Ychydig ymhellach, cyn cyrraedd fferm faenor hen iawn, troeon ni unwaith eto oddi ar y ffordd ac i fyny'r allt i fferm y Goleuegoed. Yma dyn ni'n cyfarfod ffermwr yn brysur iawn yn cneifio, ond dim yn rhy brysur i ddweud wrthon ni am ei ddefaid Dorset pedigri cyn iddyn nhw fynd i lawr i'r sied i gael torri gwallt. Mae'n hyfryd pan dach chi'n cwrdd â phobl sy'n rhoi eu hamser i chi i sôn am eu bywydau bob dydd.



Mynd tuag at Fyddfai nawr lle cawn fwynhau ymweliad diddorol â'r ganolfan ymwelwyr a adnewyddwyd yn ddiweddar. Cafod y canolfan ei hailagor gan Dywysog Siarl gan fod y tir gerllaw yn awr yn eiddo i'r Ddugaeth. Mae gan y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tywysog dŷ yma hefyd sydd wedi'i guddio'n dda yn y coed. Darganfyddwn ni fod Myddfai unwaith yn lle pwysig yn y byd meddygol. Tyfwyd llawer o berlysiâu gwahanol yma i'w defnyddio i wella. Un ohonyn nhw oedd llwyn wormwod sydd yn cael ei ddefnyddio i wneud absinthe, diod feddwol iawn!

Wedi cael ein cinio yn y fynwent ac ymweld â'r eglwys gwnaethon ein ffordd i fyny at Lwynwormwod. Dim golygfa o dŷ Siarl!

Dyna oedd ein diwrnod ar gyfer cyfarfod pobl. Wrth i ni wneud ein ffordd drwy'r coed daethon ni ar draws hen fwthyn coediwr. Roedd yn grwn, siâp anarferol iawn. Daeth y perchennog allan i'n cyfarch, yn hapus i weld cerddwyr eto, dwi'n meddwl. Roedd yn lle unig iawn ond yr olygfa ar draws y dyffryn i Lanymddyfri yn ysblennydd.

Cerddon ni drwy'r dref brysur i'r castell, tritio'n hunain i hufen ia, cyn gwneud ein ffordd yn ôl i'r maes parcio. Yn ôl i Benarth nawr a diwedd rhan arall.

Fy Arwr!

gan Lorraine Davies



Ddechrau mis Medi es i i Benarth gyda ffrindiau i weld Dafydd Iwan mewn cyngerdd. Dechreuodd y cyngerdd gyda'r Dadleoli. Maen nhw'n grŵp o ddynion ifanc sy'n ysgrifennu eu cerddoriaeth eu hunain. Roedden nhw'n wych! Wedyn, daeth yr iwcaili gyda llawer o ganu a chlapio. Seren y sioe oedd Dafydd Iwan wrth gwrs. Siaradodd am ei ganeuon. Do'n i ddim yn deall popeth a dywedodd ond ro'n i'n teimlo'r emosiwn. Roedd Dafydd Iwan yn gorffen y cyngerdd gydag Yma o Hyd a'r anthem genedlaethol. Roedd pawb yn sefyll ac roedd dagrau yn ein llygaid ni.

Dyma'r tro cyntaf i mi weld Dafydd Iwan a nawr dw i'n ffan fawr.



Gareth Jones - Halen y Ddaear



Mae aelodau Cymdeithas Edward Llwyd yn ddiolchgar iawn i Gareth Jones am roi ei law i fyny i arwain gymaint o'n teithiau. Dydy trefnu'r teithiau ddim wedi bod yn hawdd ers cyfnod Cofid. Cyn i'r pla ein taro roedden i'n gallu cael rhaglen o chwe mis o deithiau ar y tro ond mae hynny wedi bod yn anodd ers i'r cyfyngiadau dod i ben.

A Gareth oedd yn arwain ein taith o gwmpas gronfa ddŵr Llys y Frân ym mis Hydref. Roedd yn digwydd bod yn cerdded ac yn siarad ag Alan ac roedd yr haul wedi dod allan i greu golau gwyrdd hyfryd. Nes i aros i dynnu llun ond wrth i mi bwyso'r botwm mi wnaeth Gareth droi ei ben yn ôl.

Rŵan mae Gareth yn ddyn crefyddol ac mae'n gwybod y peryg o droi yn ôl pan dach chi ar daith ac mewn eiliad roedd o'n edrych o'i flaen unwaith eto. Efallai roedd o'n poeni am gael ei droi i biler o halen.

Roedd llawer wedi gweld hyn a Lot yn poeni!

Os dach chi'n hoffi cerdded yn y cefn gwlad ac eisiau'r cyfle i siarad mwy o Gymraeg beth am ddod ar un, neu mwy, o'n teithiau ni. Mae daith ar gael pob dydd Sadwrn heblaw am ym mis Awst.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

Y De a'r Canolbarth

Rhaglen mis Tachwedd 2022

Mae pob taith yn dechrau am 10.30 Dim cŵn os gwelwch yn dda Teithiau'n gorffen tua 3.00

5-11-22 Bedd Taliesin a Chae'r Arglwyddes Taith gymedrol o tua 7 milltir. Lonydd, traciau a llwybrau gyda dringfeydd a pheth rhostir garw. Nifer o sticlau. Ychydig o fannau gwlyb. **Man Cyfarfod** Cwm Ceulan. O gyfeiriad Tal-y-bont, dilynwch arwydd "Nant y moch". Culfan ar ochr chwith y lôn ar ôl troad fferm Glanrafon ond cyn cyrraedd fferm Carreg Cadwgan **SN 688901 O.N. Mae'n debyg mai SY24 5HL** yw'r cod post agosach

Arweinydd: Jackie Willmington ysgrifennydd.cof@cymdeithasedwardllwyd.com 01970 820370 0781289454

12-11-22 Ardal Llanymddyfri Cylchdaith tua 7 milltir a fydd yn ymweld â thir y brenin. Peth dringo ac ambell fan gwlyb. **Man cyfarfod** Maes Parcio yng nghanol Llanymddyfri ger adfeilion y castell, tâl **SN767342, SA20 0AN**

Arweinydd: Audrey Price 01550 721612

19/11/22 Craig yr Allt, Caerdydd. Cylchdaith tua 7 milltir, dringo i ben Craig yr Allt a disgyniad serth i lawr i Gwm Nofydd, ambell fan mwdlyd. Cyfle i edrych ar dreftadaeth cloddio mwynhau haearn mewn Ardal Cadwraeth Arbennig. **Man cyfarfod** Maes parcio Fforest Fawr. **ST142839, CF83 1NG**

Arweinydd: Margaret Levi 02920 813209

16/11/22 'Rwy'n Gweld o Bell y Dydd yn Dod,' Ardal Cwmlllynfell. Cylchdaith hamddenol tua 6 milltir, braidd dim dringo, yn ymweld â fferm Ddol Gam, man geni Watcyn Wyn. Llwybrau cadarn, ond un man gwlyb. **Man cyfarfod** Maes parcio ger y parc ar heol Pen-y-Graig, Ystradowen, Cwmlllynfell. **SN752124, SA9 2YP**

Arweinydd: Eirian Davies 01792 844821

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdano chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fyddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cronfa Ddŵr Llys y Frân

gan Rob Evans



Yng nghanol sir Benfro oedd ein taith olaf mis Medi ac roedd hi'n heulog yn Abertawe ond erbyn i mi gyrraedd Llys y Frân roedd cwmwl enfawr yn loetran yn yr awyr yn fygythiol ond efo dillad addas pwy fydd yn poeni? Mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i mi fod yma, mae gweithgareddau awyr agored yn boblogaidd dros ben erbyn hyn a llawer o arian wedi buddsoddi i ddenu ymwelwyr. Allech chi drïo'ch llaw at rwyf-fyrddio, caiacio, canŵio a physgota er ar hyn o bryd mae'r lefel mor isel does dim pysgota ac mae tipyn o gerdded i gyrraedd y dŵr. Felly beth am ddysgu taflu bwyell neu gyllyll, saethyddiaeth hyd yn oed. Ond roedd llawer o bobl wedi cyrraedd y maes parcio efo beiciau ar gefn eu ceir a dw i ddim yn synnu - mae 14 km o lwybrau beicio i fwynhau.

Er roedd gymaint o wahanol ffyrdd i ddiddori rhywun cerdded oedd ein dewis ni ac roedd 13 ohonon ni wedi troi fyny. Anffodus, rhifyn anlwcus ond cyn i ni gael y cyfle i boeni dyma aelod newydd yn cyrraedd ac roedd popeth yn iawn unwaith eto. Dysgwraig yw Ffiona ac wedi dysgu'n gyflym a thoddi i mewn i'w chymdeithas. Mae symud i Gymru wedi gwneud byd o wahaniaeth iddi hi ac ar ôl siarad efo hi bysw'n i'n dweud bod ei chymuned wedi elwa'n fawr hefyd.

Cerdded i lawr y ffordd droellog i gyrraedd gwaelod yr argae a, pheidiwch â phoeni roedden

ni ar yr ochr iawn. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar y strwythur, yr amser gorau i'w wneud hynny siŵr o fod efo'r lefel mor isel. Yn sefyll i lawr yn y gwaelod ac edrych i fynnu mae rhywun yn gwerthfawrogi'r cynllunio a'r holl waith sydd wedi mynd i mewn i greu'r strwythur enfawr yma. Mi wnaeth y gwaith dechrau ym mis Chwefror 1968 ac ar y dechrau roedd rhaid gwro afon Syfynwy. Erbyn Mehefin 1970 roedd gwaith ar y pibellwaith yn y twnnel cyflenwi wedi ei gwblhau a'r afon yn gallu rhedeg trwy'r pibellau tra oedd gweddill y gwaith ar yr argae yn mynd ymlaen. Mae dros 500,000 tonn o concrit wedi ei ddefnyddio i greu'r argae a'r concrit olaf yn cael ei osod ar 19eg Mai 1971. Erbyn hynny roedd lefel y dŵr wedi cynyddu i 40 troedfedd, roedd rhaid aros tan y 5ed o Ragfyr 1971 i'r dŵr gorlifo dros yr argae. Ar hyn o bryd mae'r lefel yn ofnadwy o isel. Mewn chwe mis bydden ni'n edrych ymlaen at y Gwanwyn a'r Haf unwaith eto, tybed a fydd y dŵr yn gorlifo erbyn hynny?

Efallai cawn ni daith i weld sut mae pethau wedi mynd.



Roedd y daith yn hyfryd ac yn ddiddorol, rhan fwyaf o'r daith ar yr ochr draw yn mynd â ni trwy'r coed a phob hyn a hyn roedd yr haul yn dod allan ac yn tywynnu trwy'r coed. Tipyn bach o fyny ac i lawr ond doedd dim brys. Does dim adfeilion o dan y dŵr yn Llys y Frân ond pob hyn a hyn roedden ni'n sefyll wrth ochr lle dyle'r lefel fod ac yn edrych ar stympiâu'r hen goed. Yn amlwg roedd y cwm yn goediog iawn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cyrraedd y pen draw a'r dirwedd yn hollol wahanol, cerdded trwy gaeau hollol wyrdd. Efallai bod rhai pobl yn cwyno bod hi'n bwrw glaw yn ddi-stop yng Nghymru, ac mae hynny'n gor-ddweud wrth gwrs, ond o leiaf dyn ni'n gallu mwynhau'r gwyrddni.

Ac mae hynny'n bwysig tydi?

A dyna ni, taith bleserus iawn, cwmni da a llond diwrnod o siarad Cymraeg. Pwy sydd eisiau mwy? Diolch yn fawr i Gareth am ein harwain a'r holl waith paratoi. Da iawn yn wir!

Pla o Fleiddiau

gan Dominig Kervegant



Mae'r Daily Post wedi cyhoeddi ar 13 Mai 2022 stori unigryw tri ffrind yng Ngharreg yr Imbill yn ardal Pen Llŷn oedd wedi mynd i bysgota ac yna gweld "cath fawr iawn", jest ychydig o fetrau oddi wrth eu ceir. Nid oes unrhyw sefydliad wedi cadarnhau'r stori. Mae pobl yn amau bod pwma wedi ei ryddhau, yn ddiweddar iawn, yn y gwyllt oherwydd diffyg trwydded, arian i'w fwydo neu gartref i'r anifail. Mae "stori blaidd" wedi dod allan bron yr un

pryd yn Llydaw a'r stori hon yn tanio diddordeb yno yn fawr iawn.

Mae awdurdodau Penn-ar-Bed (Kemper) yn y lle cyntaf yn cydnabod presenoldeb y blaidd yn ucheldir Mynydd Are. Mae un o'r bobl sy'n monitro'r blaidd yn Llydaw wedi llwyddo i ffilmio blaidd ym mhlwyf Berrien. Erbyn hyn mae'r fideo wedi ei ddilysu. Dyma'r tro cyntaf i flaidd llwyd byw ei weld yn Llydaw ers dechrau'r ganrif ddiwethaf. Cafodd flaidd marw ei ddarganfod ym mis Hydref 2021 yn Sant-Brewenn ger Naoned. Nid yw pobl wedi llwyddo i ddarbwyllio awdurdodau Llydaw i weithredu ar unrhyw gynllun hyd yn hyn.

Diflannodd y blaidd yn Llydaw yn sydyn yn ystod ail hanner y 19eg ganrif wrth i bobl glirio mwy a mwy o dir corsiog. Cafodd wenwyn ei defnyddio er mwyn cyflymu'r broses a chafodd yr un olaf ei ladd yn Penn-ar-Bed ym 1895. Cafodd flaidd taircoesog ei weld ym Mynyddoedd Are ym 1906. Cafodd flaidd arall ei ladd yn 1913 ond mae pobl yn tybio bod y blaidd hwn wedi dod o ardal arall.

Roedd niferoedd yn eithaf uchel o gwmpas 1800: 5000 ar gyfer Ffrainc gyfan, rhwng 200 a 300 yn Penn-ar-Bed. Roedd rhyw 5000 yn cael eu lladd bob blwyddyn, heb lwyddo i gael gwared â'r anifail.

Y rhai ifanc oedd yn cael eu dal. Roedd lladd y bleiddiaid hyn yn llawer mwy anodd. Erbyn 1860 nid oedd ond rhyw 100 blaidd yn weddill yno a dim ond 5 yng nghyffiniau Roazhon. Roedd yr awdurdodau yn cyflogi 28 Lefftenant Bleiddiau ar gyfer Llydaw gyfan.

Mae tystiolaeth uniongyrchol yn dangos bod pobl yn gweld bleiddiau mewn llefydd agored, tir eithnog, caeau, gerddi, ffyrdd ac ar lân y môr - canol Llydaw a'r arfordir yn enwedig. Roedd helfilod yn brin pryd hynny ac roedd y bleiddiau yn bwyta anifeiliaid anwes yn aml. Coedwigoedd mewn ardaloedd serth oedd eu hunig ddihangfa am y tro.

Nid yr unig dystiolaeth yw'r fideo o'r blaidd . Mae Marie Ménager, ffermwraig o ardal mynydd Are, wedi gweld blaidd Berrien hefyd. Nid yw Marie yn awgrymu ei bod hi'n bryderus am ei geifr ar hyn o bryd. Mae'n siŵr bydd problem ffermwyr sy'n poeni am eu da byw yn codi, fel ymhob man. Mae 'na wefan yn cynnig ffordd o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

symud ymlaen ar gyfer y dyfodol wrth i boblogaeth fleiddiaid gynyddu - sydd yn debygol iawn.

Mae wedi bod yn hynod o ddiddorol i mi wrando ar gasgliad dystiolaeth, anuniongyrchol, sef recordiadau ar gyfer rhaglen safle Radio Bro-Gwened. Mae pobl yn sôn am eu rhieni neu deidiau a neiniau oedd wedi gweld bleiddiaid cyn troad y ganrif ddiwethaf. Roedd pobl Llydaw yn arfer gweiddi rhywbeth fel hyn pan oeddent yn gweld y blaidd: Harz ar bleiz o vont er c'hoad - Ur minawed ên e droad, - Ar forc'h e toull e c'hoûg! - E toull e revr ema ân droug... (Stopiwch rhag i'r blaidd mynd i'r goedwig, - Mynawyd yn ei droed, - Fforch haearn yn nhwll ei wddf!)

Fy Nain Ddirgel

gan Bryan Roberts



Efallai bod chi'n cofio fi'n ysgrifennu darn am fy nheulu yn ddiweddar, ac, yn y paragraff cyntaf, wnes i sôn am y problemau ges i wrth drïo dod o hyd i fanylion am farwolaeth fy nain ar ochr fy mam.

Dechreuais wneud gwaith ymchwil am fy nheulu fel rhywbeth i wneud ar ôl i mi ymddeol ac wrth gwrs, dechreuais efo fy nhad a fy mam. Nid oedd broblem efo nhw, felly, es ymlaen i edrych ar fy nheidiau a neiniau, a dyna pryd wnes i ddechrau dod o hyd i broblemau. Nid efo'r gangen Roberts; oedden nhw yna yng nghyfrifiad 1891, fy hen daid a hen nain a'u blant i gyd. Roedd 'na un deg tri ohonyn nhw!

Ond, ar ochr arall y teulu, y Forsters, enw gwreiddiol fy mam, roedd y profiad yn hollol wahanol. I ddechrau gwnes i ddarganfod bod fy

mam yn blentyn llwyn a pherth. Felly, pwy oedd ei thad? Ces i ddigon o wybodaeth i fod yn eithaf siŵr fy mod i'n gwybod pwy oedd o, ond stori arall ydy hynny.

Nid oedd unrhyw anhawster i gael manylion genedigaeth fy nain, nag ei phriodas chwaith, ond, er gwaethaf chwilio ym mhob man, wnes i fethu darganfod lle a phryd bu farw hi.

Dros y cyfnod o fy ymchwil, yr oeddwn i wedi bod yn ysgrifennu llyfr am y teulu ond nad oedd unrhyw ffordd i mi ei chwblhau heb ddod o hyd i ateb i'r cwestiwn mor bwysig hwn. Ond ble i fynd nesaf? Dechreuais fy ngwaith yn y naw degau, yn gynnar iawn yn oes y rhyngryd. Roedd 'na rhestr o genedigeithau, priodasau a marwolaethau ar gael, wrth gwrs, ond nid ar y we yn wreiddiol. Oedd yn bosibl chwilio ynddo ar ficroffilm yn yr archifau neu yn llyfrgelloedd, ond, er yr holl chwilio a chwilio, doedd hi ddim yna.

Ond beth am ei gŵr? Doedd dim golwg ohono fo chwaith. Hyd yn oed efo datblygiad y rhyngryd yn y blynyddoedd wedyn, ac er gwaethaf fy ymdrechion gorau dros lawer o flynyddoedd, wnes i fethu ei ffeindio. Dw i dal ddim yn gwybod beth ddigwyddodd iddo fo, ond mae'n amlwg bod o wedi marw rhywbryd. Welwch chi pam dw i'n dweud hynny nes ymlaen.

Aeth bron ugain o flynyddoedd heibio. Roedd yn amhosib gorffen fy llyfr heb i mi ddod ar draws y stori i gyd. Roeddwn i wedi mynd dros y cofnodion drosodd a throsodd, heb lwyddiant, tan, un diwrnod, cofiais am hen gofnodion y Mormoniaid. Roedden nhw ar gael ar ficroffilm blynyddoedd yn ôl ond nid oedd neb yn eu defnyddio bellach efo cymaint o wybodaeth ar gael trwy Ancestry ac yn y blaen, ar y rhyngryd.

Darganfyddais fod cofnodion y Mormoniaid ar gael ar y we hefyd a dyna hi, yn cael ei phriodi ym Mhenbedw, lle oedd hi wastad wedi byw.

Rhuthrais i'r Lyfrgell Addysg Leol yng Ngaer, gofynnais i am y ficroffilm ar gyfer yr eglwys ym Mhenbedw, ac yna ddarganfais cofnod o ail briodas. Llwyddiant o'r diwedd! Ond, arhoswch funud, beth ydy hyn? Dyna oedd enw'r 'gŵr-i-fod' ond, nad ydy o wedi ymddangos, felly nad oedd y briodas wedi cymryd lle. Dyna pam nad oeddwn wedi gallu dod o hyd ati hi yn y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cofnodion swyddogol. Mor agos ond mor bell i ffwrdd. Beth i'w gwneud nesa? Es i adre yn llawn siomedigaeth i feddwl amdani.

Ond beth os oedden nhw wedi eu priodi rhywle arall wedi'r cyfan neu yn cogio eu bod nhw wedi priodi? Does dim golwg o briodas unrhyw le, felly dechreuais ymchwilio am farwolaeth o dan enw'r 'gŵr-i-fod', a dyna ni. Roedd hi a'i 'gŵr' yn fyw gyda'u gilydd ond, yn anffodus fu farw hi dipyn bach mwy na flwyddyn ar ôl y "briodas".

Dyna fo felly. Roedd fy ymchwiliad ar ben, cafodd fy llyfr ei argraffu a chael ei ddsbarthu at aelodau fy nheulu i gyd yn 2012. Ond, beth i'w wneud nesaf? Pasiodd dwy flynedd heibio cyn penderfynais geisio dysgu Cymraeg, ond, stori arall ydy hynny.

Taith y Capeli

gan Anthony Stewart



Trefnodd Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda daith gerdded ar fore Sadwrn 24ain Medi. Na, nid ar gyfer Ymddiriedolaeth Iechyd Sir Benfro, Sir Gâr er bod y corff wedi cael ei enwi er deyrnged i'r hen Frenin Hywel Dda o'r 10fed ganrif. Lleoliad dechrau a diwedd y daith oedd Cwmiles, pentre' bach yn nwf n cefn gwlad Sir Gâr tua milltir i'r de o Login. Cwm-Miles sydd ar arwydd y ffordd ond Gwmiles mae pawb yn dweud. Cwm gogoneddus hefyd a'r Afon Taf yn ymdroelli tua'r môr yn waelod y cwm.

Daeth 45 o Gymry Cymraeg brwd ynghyd i gefnogi'r Gymdeithas mewn ymdrech clodwiw i godi arian ar gyfer achosion da. Mae yna Ganolfan ynghyd â gerddi yn Hendy-gwyn ar Daf er cof iddo hefyd sydd yn werth yr ymweliad. A phwy oedd Hywel Dda? Teyrn neu Frenin

gwybodus a deyrnasodd dros Gymru gyfan a dyn cyn ei amser oedd Hywel Dda. Hywel ap Cadell i fod yn gywir, aelod blaenllaw o linach cangen brenhinoedd Dinefwr a disgynnydd o Rhodri Fawr.

Cymru gyfan oedd deyrnas Hywel yn cynnwys y Gogledd a'r Deheubarth, sef Prestatyn i Benfro o 920 tan fu farw Hywel ym 950. Priododd Elen, aeres Brenin Llywarch o Ddyfed.

Roedd Hywel yn adnabyddus ac yn gyfrifol yn bennaf am ddeddfu cyfreithiau a fu'n rhoi i fenywod hawliau sylweddol dros eiddo, ysgariad, trais, anaf a mwy. Dyn cyn ei amser heb os. Addysgedig hefyd yn ei amser, sef rhugl yn Lladin, Cymraeg a Saesneg. Aeth ar bererindod i Rufain ym 928. Cafodd menywod hawliau yn amser Hywel y byddai menywod heddiw braidd yn genfigennus ohonynt.

Cafodd y daith o 4.5 milltir ei drefnu ar lonydd lleol ac i bawb sydd yn gyfarwydd â llongydd cefn gwlad maen nhw'n debyg i gamlesi a phob hyn a hyn gwelai bawb golygfeydd hyfryd o ben bryniau cefn gwlad Cymru yn ymestyn o'u blaenau nhw. Bore mwyn a heulog ar y cyfan oedd hi, ac ar gyfer yr ysgrifennwr hwn cyfle euraidd i gael sgwrs hir a bywiog gyda Chymry Cymraeg ei iaith.

Ond yr oedd mwy o bleser i ddod oherwydd nôl yn festri'r capel ar ben y daith roedd aelodau eraill wedi trefnu gwledd ar ein cyfer ni. Ac roedd y wledd o'n blaen ni'n ddigon ar gyfer byddin o bobl. Danteithion i dynnu dŵr o'ch dannedd, â bwcedi o de i gyd-fynd â'r wledd i adfer unrhyw deithiwr blinedig. Clod a mawl i bawb a daeth i gefnogi a'r bobl weithgar tu ôl y llenni. Bore bendigedig amhrisiadwy.

Nofelau Cymraeg

Rhai awgrymiadau ar gyfer Y Nadolig

gan Martin Jones



Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon, bydd y Nadolig yn nesáu ac rydw i'n siŵr y byddwch chi i gyd yn meddwl am eich llythyr at Siôn Corn i ofyn am beth rydych chi am iddo fe adael yn eich hosan Nadolig! Wel, mae darllen Cymraeg yn rhan bwysig o ddyysgu'r iaith, felly beth am ofyn i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Siôn Corn ddod ag ychydig o nofelau Cymraeg? Bydd darllen nofelau Cymraeg nid yn unig yn ehangu eich geirfa ond hefyd yn eich helpu chi i adnabod strwythurau gramadegol. Yn ogystal, mae darllen yn dod â chysylltiad â'r gymuned Gymraeg a synnwyr o gyflawniad.


Mae'n ymddangos i fi ar hyn o bryd bod nifer o awduron Cymraeg cyfoes sy'n cynhyrchu amrediad eang o nofelau a bod rhywbeth at ddant pawb. Mae'r awgrymiadau canlynol wedi'u seilio ar fy mhrofiad fy hun o ddarllen.



Efallai taw “Blasu” gan Manon Steffan Ros ydy un o'r nofelau Cymraeg mwyaf llwyddiannus yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r nofel yn cychwyn ar ben-blwydd wyth deg oed Pegi ac yn edrych yn ôl ar ei bywyd gan ddefnyddio pobl wahanol oedd yn adnabod Pegi i adrodd ei hanes. Mae'r arddull uniongyrchol a lliwgar yn creu llun fyw o amser, lle, a pherson. I fi, roedd diwedd y nofel yn enwedig o rymus wrth i Pegi ddisgrifio ei henaint ac, o'r diwedd, ddatgelu'r gyfrinach y mae hi wedi'i chadw ers cyhyd.




Llyfr poblogaidd arall gan Manon Steffan Ros ydy “Llyfr Glas Nebo”. Lleolir yng Ngogledd Cymru rai blynyddoedd ar ôl rhyw fath o drychineb niwclear, mae'r llyfr yn adrodd stori Rowenna a'i mab, Siôn, yn eu geiriau eu hunain. Enillydd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod yn 2018 ar y pwnc “Ynni” ydy'r llyfr hwn, ond wrth ganolbwyntio ar y personol yn hytrach na'r gwyddonol, mae'r awdur wedi creu cymeriadau credadwy a rhoi i ni llyfr sy'n gwneud i ni ail-ystyried ein ffordd o fyw ein hunan. Mae'r nofel yn eithaf byr (143 o dudalennau) ac mae hyn yn ogystal â ffordd o ysgrifennu'r awdur yn gwneud i'r llyfr yn un delfrydol ar gyfer y rhai sy heb ddarllen llyfr Cymraeg o'r blaen.



Dydy “Fel Aderyn” - nofel gyntaf Manon Steffan Ros ar gyfer oedolion - mor hysbys â'r ddau lyfr rydw i wedi sôn

amdanyn nhw'n barod. Hanes gafaelgar teulu a'i chyfrinachau ydy hi, ac i fi roedd yn bendant gwerth ei darllen.



Dydy “Allez Les Gallois” ddim yn swnio fel llyfr Cymraeg, ond nofel ddiddan gan Daniel Davies am dri chwpl o Gymru sy'n ymweld â Ffrainc yn ystod Pencampwriaeth Euro 2016 ydy hon. Ond peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n hoffi pêl droed achos dim ond cefndir i ddigwyddiadau'r nofel ydy hynny. Mae gan y cyplau resymau gwahanol i deithio ond, ar hap, mae eu llwybrau'n croesi, a'r canlyniad ydy nofel sy'n anodd rhoi i lawr.

A dyna ni am y mis yma byddaf yn ôl yn rhifyn mis Rhagfyr efo mwy o lyfrau ar gyfer y Nadolig.

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau ‘Wilia’ ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagoro esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

RHAGLEN 2023/ PROGRAMME 2023

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymraeg ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom ar wahan y sgyrsiau ym mis Mawrth a Medi – byddan nhw yn y Clwb Criced ac ar Zoom. Hefyd bydd ein Parti Nadolig ym mis Rhagfyr yn y Clwb Criced.

<u>DYDDIAD</u>	<u>ENW</u>	<u>TEITL</u>
09 IONAWR (Zoom– 7 30 yh)	Elizabeth Liney	Cipolwg dros Gymry Llundain
13 CHWEFROR (Zoom – 7 30 yh)	Andrew Green	Ystrad Fflur
13 MAWRTH (Clwb Criced Tondu ac ar Zoom– 7 30yh)	Cleif Harpwood	Dylanwade
8 MAI (Ymweliad – 7 00yh)	Enid Connick	St John's House
12 MEHEFIN (Ymweliad – 7 00yh)	Kath Jones	Datblygiad Cwm Llynfi
11 MEDI (Clwb Criced Tondu ac ar Zoom – 7 30yh)	Dr Elin Jones	Hanes Ysgrifennu 'Hanes yn y Tir'
09 HYDREF (Zoom– 7 30yh)	Cyril Jones	Barddoniaeth
13 TACHWEDD (Zoom– 7 30yh)	Celyn Gurden-Williams	Arglwyddes Llanofar
11 RHAGFYR (Clwb Criced Tondu – 7 00yh)		Parti Nadolig

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Hydref 2022 – Delyth Jenkins yn siarad am ‘Hanes y Delyn a’i Thaith ar Lwybr Arfordir sir Benfro gyda’i Thelyn’.

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Dw i’n siŵr bod llawer o bobl, fel fi, yn hoff iawn o sŵn y delyn. Felly ro’n ni’n falch iawn i groesawu a gwranddo ar Delyth Jenkins, telynores, yn sgwrsio gyda ni am ei phrofiadau gyda’i thelyn ar Lwybr Arfordir sir Benfro.

Dwedodd Delyth wrthon ni fod pobl yn canu rhyw fath o offeryn fel y delyn tua 3000 o flynyddoedd cyn Crist. Mae’r offeryn wedi newid dros y blynyddoedd. Roedd yr offeryn yn edrych fel bwa yn wreiddiol ond mae’r siâp wedi bod fel triongl ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae’r tannau wedi newid hefyd. Ro’n nhw wedi eu gwneud o gynffonnau ceffylau ac wedyn perffedion defaid. Nawr mae Delyth yn defnyddio telyn gyda ffibr carbon ac mae fersiwn mawr a bach gyda hi. Wrth gwrs, mae’r sŵn yn newid yn dibynnu ar y tannau.

Siaradodd Delyth am ei phenderfyniad i gerdded gyda’i thelyn fach yr holl 186 milltir ar hyd llwybr arfordir sir Benfro ym mis Awst 2012. A dweud a gwir doedd hi ddim yn siŵr pam penderfynodd hi wneud yr her ond roedd hi’n hoffi cerdded, hoffi arfordir sir Benfro ac, wrth gwrs, roedd hi’n hoffi canu’r delyn.

Ar ôl iddi hi gynllunio’r daith yn ofalus, dechreuodd Delyth yn Llandudoch a cherddodd hi tua 12 milltir y dydd cyn iddi hi gyrraedd Llanrath tua phythefnos yn hwyrach.

Roedd y tywydd yn eitha’ gwlyb ond yn glir a mwynhaodd Delyth y daith yn fawr iawn. Siaradodd hi am ei phrofiadau - yn canu’r delyn mewn lleoedd gwahanol fel Plasty Tregwynt a hefyd yn siarad â chymysgedd o bobl yn ystod y daith.

Mae Delyth wedi ysgrifennu llyfr, ‘That would be Telyn’, sy’n gofnod hyfryd o’i phrofiadau o bobl, lleoedd a’r llawenydd wrth ganu’r delyn dan amgylcheddau mor wahanol. Hefyd, mae Delyth wedi ysgrifennu am ei hatgofion o’i phlentyndod, ei bywyd priodasol a’i gyrfa fel telynores.

Diolch yn fawr iawn i Delyth am sgwrs ddiddorol dros ben.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 14 Tachwedd am 7 30yh ar Zoom – Siân James yn siarad am ‘Tair Cymraes mae Hanes wedi Anghofio’

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a’r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road **CF39 9PG**. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Cwm Ivy - Shw mae dydd Iau Cwm Ivy cafe and Crafts, Gŵyr **SA3 1DJ**. Trowch i’r dde wrth eglwys Llanmadog a pharciwch yn y cae ar y dde (honesty box). Cerddwch i lawr dipyn ac mae’r caffï ar y dde. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau o 11.00 tan 4.00 bobwennol@ntlworld.com

Nodwch fod y caffï yng Nghwm Ivy ar gau dros y gaeaf ond mi fydd popeth yn mynd ymlaen fel arfer yn y caffï sydd yn y siop gymunedol yn y pentref.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, Caerloyw GL2 8DB. Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil! ebost: fibenson@gmail.com

Abergwaun, Sir Benfro. Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun. **SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ar yr ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. **SA42 0PH.** Croeso cynnes i bawb.

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus. Un wythnos ar Zoom, 10-10.40 wythnos wedyn yn yr Hollybush Coryton, 10.30-11.30. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, awyr agored rhwng 1-2 o'r gloch. Ond erbyn canol Hydref nol i gaffi Neros yn Jams Hywel, Yr Ais fydd hi mae'n siŵr. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Glowyr am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb. clwbcecsllanelli@gmail.com

If you go to a Welsh group or know of one that is not on this list please let me know. Groups are a simple and effective way of, not only keeping your Welsh going but, developing it and will eventually get you into the Welsh World. If you want to start one in your area let me know and together we can try and get members.

Geirfa

Dysgwyr Bro Gŵyr

Ochr ogleddol - the north side
Penrhyn - peninsula
Wedi ei sefydlu - been established
Hercian - stumbling
Clebran - chattering
Cymorth - help
Ysbryd yn codi - spirit raising
Anghyfarwydd - unfamiliar
Go brin - scarcely
Go iawn - properly
Gris - step
Dod ar eu traws - to come across (someone)
Mewnbwn - input

O'r diwedd!

Sir Drefaldwyn - Montgomeryshire
Caerwrangon - Worcester
Ffeindio fy nhafod - to find my tongue
Wedi cyffroi - to be excited

Cael ffrind newydd

Bydwraig - midwife
Talacharn - Laugharne

Cerddoriaeth a fi

Band pres - brass band
Cerddorfa - orchestra
Offeryn - instrument

Cadw'n brysur

Gronyn volcanic - volcanic particles
Ffisegydd - physicist
Effeithiau - effects
Ymbelydron - radiation
Gwyddonydd - scientist
Gweithredu - to put into effect
Pont troed - footbridge
Ffrwyth ein llafur - fruits of our labour

Taith Calon Cymru

Parcdir - parkland
Fferm faenor - manor farm
Cneifio - to shear

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

MAE MENTER IAITH RHONDDA
CYNON TAF YN EDRYCH I GYFLOGI

GWEITHIWR LLAWRYDD

AM GYFNOD O 3-4 MIS YN Y MAES
ADDYSG OEDOLION AC IEUENCTID.

CYFLOG - £23,000 Y FLWYDDYN.

OS OES DIDDORDEB GYDA
CHI CYSYLLTWCH!

post@menteriaith.cymru

Menter iaith
Rhondda Cynon Taf

Adnewyddu - to restore
Dugaeth - dukedom
Llwyn wermod - wormwood bush
Unig - isolated

Gareth Jones

Cyfyngiadau - restrictions
Cronfa ddŵr - reservoir
Crefyddol - religious
Piler o halen - pillar of salt

Taith Llys y Frân

Loetran - loitering
Gweithgareddau - activities
Poblogaidd - popular
Buddsoddi - to invest
Rhwyf-fyrddio - paddleboarding
Taflu bwyell - axe throwing
Cyllyll - knives
Saethyddiaeth - archery
Ffordd droellog - winding road
Strwythur - structure
Gwerthfawrogi - to appreciate

Cynllunio - planning
Gwyro - to divert
Pibellwaith - pipework
Twnel cyflenwi - supply tunnel
Argae - dam
Gorlifo - to overflow
Tywynnu - to shine
Adfeilion - ruins
Gor ddweud - to overstate

Pla o Fleiddiau

Sefydliad - institution
Diffyg trwydded - lack of a licence
Blaidd - wolf
Llydaw - Brittany
Tanio - to fire, to generate
Dilysu - to deny
Tir corsiog - boggy ground
Gwenwyn - poison
Tybio - to believe
Helflod - animals preyed on
Anifeiliaid anwes - pets
Dihangfa - place of escape

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Pryderus - worried

Da byw - cattle

Anuniongyrchol - indirect

Fy Nain ddirgel

Cyfrifiad - census

Plentyn llwyn a pherth - illegitimate child

Anhawster - difficulty

Genedigaeth - birth

Ymchwil - research

Cwblhau - to complete

Cofnodion - records

Caer - Chester

Penbedw - Birkenhead

Gŵr i fod - husband to be

Taith y Capeli

Er deurnged - in tribute

Dwfn - deep

Gogoneddus - glorious

Ymdroelli - to wind

Brwd - enthusiastic

Ynghyd - together

Clodwiw - praiseworthy

Teyrnas - kingdom

Cyn ei amser - ahead of his time

Blaenllaw - prominent

Aeres - heiress

Cyfreithiau - laws

Eiddo - property

Ysgariad - divorce

Trais - violence

Anaf - injury

Addysgedig - educated

Pererindod - pilgrimage

Cenfigennus - jealous

Mwyn - warm

Cyfle euraidd - golden opportunity

Gwledd - a feast

Ar ein cyfer ni - for us, on our behalf

Byddin - army

Danteithion - delicacies

I dynnu dŵr o'ch danedd - mouthwatering

Amhrisiadwy - priceless

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Nofelau Cymraeg

Cyflawniad - fulfillment

Amrediad eang - wide range

At ddant pawb - for all tastes

Wedi ei selio ar - based on

Arddull - style

Grymus - strong

Ers cyhud - for so long

Trychineb - disaster

Gwyddonol - scientific

Credadwy - believable

Ystyried - to consider

Hysbys - well known

Gafaelgar - gripping

Ar hap - by chance

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Offeryn - Instrument

Bwa - bow

Tannau - strings

Perfeddion - gut

Llanrath - Amroth

Cymysgedd - a mixture

Amgylcheddau - situations